# BWCLE

**CYNLLUN GWEITHREDU CREU LLEOEDD** (2025-2027)
**Cynllun 18 Prosiect i wella Bwcle erbyn 2027:**
dan arweiniad Cyngor Sir y Fflint (CSFf), Cyngor Tref Bwcle a Sefydliadau Partner

**3561**
**Mae Cynllun Creu Lleoedd Bwcle, wedi'i hysbysu gan 3561 o gyfraniadau gan bobl leol.**

**Mae Creu Lleoedd yn ymwneud â llunio lleoedd o amgylch anghenion a dyheadau yr unigolion sy'n byw, gweithio ac ymweld â nhw. Mae'n broses gydweithredol sy'n uno gwybodaeth, syniadau ac adnoddau lleol i wella gofodau cyhoeddus, atgyfnerthu cysylltiadau cymunedol, a chefnogi lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.**

Mae Cynllun Gweithredu Creu Lleoedd Bwcle wedi'i lunio drwy ymgynghoriad helaeth gyda phreswylwyr, busnesau, grwpiau cymunedol a darparwyr gwasanaethau lleol. Mae eu mewnwelediad a'u blaenoriaethau wedi cynorthwyo i lunio gweledigaeth a rennir ar gyfer dyfodol Bwcle.

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn (2025-2027) yn nodi fframwaith ar gyfer darpariaeth yn seiliedig ar y 9 blaenoriaeth a nodwyd yng Nghynllun Creu Lleoedd Bwcle. Mae'n amlinellu 18 prosiect ymarferol y mae partneriaid lleol wedi ymrwymo i'w darparu. Er bod y prosiectau'n dibynnu ar gyllid o amrywiaeth o ffynonellau nad ydynt o reidrwydd wedi'u gwarantu, maent yn adlewyrchu uchelgais cryf ac ar y cyd i greu newid cadarnhaol ar gyfer Bwcle erbyn 2027.

## Blaenoriaeth 01

### Dathlu Hunaniaeth Bwcle

Meithrin balchder lleol ac arddangos hanes a phobl Bwcle

**Gwobrau Cymunedol Bwcle**
**I'w ddarparu gan:**
Cyngor Tref Bwcle
**Pwrpas:** Cydnabod unigolion a grwpiau llawn ysbrydoliaeth
**Effaith erbyn 2027:** Meithrin balchder lleol a morâl cymunedol

**Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir y Fflint**
**I'w ddarparu gan:** Tîm Twristiaeth Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Hyrwyddo Bwcle fel cyrchfan i ymwelwyr
**Effaith erbyn 2027:** Denu mwy o ymwelwyr a swyddi twristiaeth

## Blaenoriaeth 02

### Gwella Bywiogrwydd Canol y Dref

Dod â bywyd, gweithgarwch a buddsoddiad i'r stryd fawr

**Grant Gwella Eiddo Canol y Dref**
**I'w ddarparu gan:**
Tîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Grantiau i wella eiddo masnachol a denu buddsoddiad
**Effaith erbyn 2027:** Perchnogion / tenantiaid eiddo yn derbyn cefnogaeth i wella neu ehangu, gan hybu ansawdd gweledol a defnydd o'r dref

**Cynllun Grant Gweithgareddau a Digwyddiadau yng Nghanol Trefi**
**I'w ddarparu gan:**
Tîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Cyllid i gefnogi ac annog digwyddiadau cymunedol sy'n dod â bywiogrwydd, ymwelwyr a gwariant lleol
**Effaith erbyn 2027:** Mwy o weithgareddau / digwyddiadau yng nghanol trefi

## Blaenoriaeth 03

### Datblygu'r Ymdeimlad o Gyrraedd Bwcle a Chysylltedd y Dref

Gwell arwyddion, strydoedd mwy diogel, a mynediad haws i'r dref

**Adolygu TCC y Dref**
**I'w ddarparu gan:**
Cyngor Tref Bwcle
**Pwrpas:**
Gwella diogelwch cymunedol ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol
**Effaith erbyn 2027:**
Gofodau cyhoeddus sy'n fwy diogel a chroesawgar



## Blaenoriaeth 04


### Cynhyrchu Gweithgarwch a Phrofiadau o Safon

Creu rhesymau i bobl ymweld a threulio amser ym Mwcle

**Sesiynau Chwarae Ieuenctid a Gwaith Ieuenctid Datgysylltiedig**
**I'w ddarparu gan:**
Gwasanaethau Ieuenctid a Chwarae Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Sesiynau wythnosol ar draws y dref ac mewn parciau
**Effaith erbyn 2027:** Mwy o ymgysylltiad ieuenctid mewn 4+ o ardaloedd

**Prosiect Cryfder mewn Rhifau ar gyfer Oedolion**
**I'w ddarparu gan:** Gwasanaeth Gwella Ysgolion / Dysgu Cymunedol Oedolion Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Gwella llythrennedd, sgiliau digidol a chyflogaeth
**Effaith erbyn 2027:** Mwy o breswylwyr â sgiliau a hyder

**Adolygu Toiledau Cyhoeddus**
**I'w ddarparu gan:** Cyngor Tref Bwcle
**Pwrpas:** Holi barn pobl leol ynglŷn â'r toiledau presennol ym Mwcle gyda'r nod o gynnig gwell profiad o'r dref
**Effaith erbyn 2027:** Defnyddir canfyddiadau'r arolwg yn sail ar gyfer penderfyniadau yn y dyfodol a'r camau nesaf




Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government
Trawsnewid Trefi
Transforming Towns
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cyngor Sir y Fflint
TîmAdfywio RegenerationTeam
Flintshire County Council
creu lleoedd SIR Y FFLINT
CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

# Blaenoriaeth 05

## Gwella a Datblygu Mannau Gwyrdd

Lleoedd gwyrddach sy'n darparu buddion ar gyfer pobl, bywyd gwyllt a'r hinsawdd

**Coronation Gardens - Ailddyluniad Hygyrch**

**I'w ddarparu gan:** Cyngor Tref Bwcle
**Pwrpas:** Gwella'r cynllun, plannu, llwybrau
**Effaith erbyn 2027:** Gofod gwyrdd sy'n groesawgar ac yn fwy cynhwysol

**Buddsoddi mewn Mannau Gwyrdd a Systemau Draenio Cynaliadwy**

**I'w ddarparu gan:** Tîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Cefnogi bioamrywiaeth, plannu coed a gofodau natur
**Effaith erbyn 2027:** Un cynllun gwella gwyrdd wedi'i ddarparu

# Blaenoriaeth 06

## Manteisio ar Gryfderau Lleol a Chreadigrwydd

Cynnwys preswylwyr Bwcle wrth lunio eu dyfodol

**Prosiectau Cynhwysiant Pobl Hŷn**

**I'w ddarparu gan:** Gwasanaethau Cymdeithasol a Thîm Heneiddio'n Dda Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Ymgysylltu â phreswylwyr hŷn i lunio gwasanaethau a chynlluniau
**Effaith erbyn 2027:** Mwy o bobl hŷn yn lleisio eu barn ar benderfyniadau ar gyfer y dref

**Rhwydwaith Cefnogi Grŵp Cymunedol**

**I'w ddarparu gan:** Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (CGLISFf)
**Pwrpas:** Helpu grwpiau lleol i dderbyn cyllid a chyngor
**Effaith erbyn 2027:** Sefydliadau lleol cryfach, cynaliadwy

# Blaenoriaeth 07

## Datblygu Bwcle fel Brand

Hyrwyddo cymeriad a phersonoliaeth unigryw Bwcle

**Datblygu Gweledigaeth a Datganiad Cenhadaeth Cyngor y Dref**

**I'w ddarparu gan:** Cyngor Tref Bwcle
**Pwrpas:** Diffinio blaenoriaethau clir dan arweiniad y gymuned
**Effaith erbyn 2027:** Arweinyddiaeth a hunaniaeth gryfach

**Cefnogaeth i Grwpiau Cymunedol Lleol**

**I'w ddarparu gan:** Tîm Datblygu Cymunedol Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Darparu cefnogaeth i grwpiau sy'n cynnig rhywle cynnes i bobl leol
**Effaith erbyn 2027:** Grwpiau wedi cael cefnogaeth i ddarparu mannau cynnes

# Blaenoriaeth 08

## Gweithio gyda'n gilydd er budd pawb

Partneriaethau ar draws y sectorau i ddarparu newid

**Gweithwyr Cyswllt Presgripsiynu Cymdeithasol**

**I'w ddarparu gan:** Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (CGLISFf)
**Pwrpas:** Cysylltu pobl gyda chefnogaeth lles lleol
**Effaith erbyn 2027:** Cymunedau wedi'u cysylltu'n well gyda gwasanaethau iechyd a lles

**Cefnogaeth ar gyfer Prosiect Hen Adeilad Baddonau Bwcle**

**I'w ddarparu gan:** Cyngor Tref Bwcle
**Pwrpas:** Adfer safle hanesyddol dan arweiniad y gymuned
**Effaith erbyn 2027:** Cynnydd tuag at ei ailddefnyddio fel ased cyhoeddus

**Ffitrwydd, Bwyd a Darllen**

**I'w ddarparu gan:** Gwella
**Pwrpas:** Mynd i'r afael â bod yn llwglyd ac unig dros y gwyliau, ennyn cyfranogiad plant, pobl ifanc a theuluoedd
**Effaith erbyn 2027:** Llai o blant a phobl ifanc yn llwglyd ac unig dros y gwyliau, hybu lles a chyfranogiad

# Allwedd

Cynrychiolir pob **blaenoriaeth** gan liw unigryw.
Efallai y bydd gan brosiectau sawl smotyn lliw sy'n dangos eu bod yn cyfrannu at fwy nag un flaenoriaeth.

**Sut i'w ddarllen:**
Mae prosiect sy'n cynnwys **un smotyn** yn cefnogi'r un flaenoriaeth honno.
Mae prosiect sy'n cynnwys **mwy nag un smotyn** yn cefnogi mwy nag un flaenoriaeth.

- Blaenoriaeth 1
- Blaenoriaeth 2
- Blaenoriaeth 3
- Blaenoriaeth 4
- Blaenoriaeth 5
- Blaenoriaeth 6
- Blaenoriaeth 7
- Blaenoriaeth 8
- Blaenoriaeth 9

"Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg. Gweler y dudalen Saesneg ar ein gwefan. This document is also available in English. See English page on our website."

# Blaenoriaeth 09

## Cysylltu Cymdogaethau a Chanol y Dref

Pontio'r bylchau rhwng ystadau, ysgolion a'r stryd fawr

**Hyrwyddo Bwcle ar Gyfryngau Cymdeithasol**

**I'w ddarparu gan:** Cyngor Tref Bwcle
**Pwrpas:** Hyrwyddo'r hyn sydd gan Fwcle i'w gynnig, gwella cysylltedd rhwng preswylwyr a chanol y dref
**Effaith erbyn 2027:** Cynyddu presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol ac ymgyrchoedd i hyrwyddo Bwcle

